OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 2989

## Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006

**Gwrandawiadau ac ymchwiliadau lleol**

**9.**—(1) Cyn penderfynu apêl, caiff y Cynulliad Cenedlaethol, os gwêl yn dda—

(a) peri bod yr apêl yn cael ei chynnal neu ei pharhau ar ffurf gwrandawiad (a gall y gwrandawiad hwnnw gael ei gynnal, neu gael ei gynnal i ryw raddau, yn breifat, os yw'r person sy'n gwrando yr apêl yn penderfynu felly); neu

(b) peri bod ymchwiliad lleol yn cael ei gynnal.

(2) Cyn penderfynu ar apêl, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol weithredu fel a grybwyllir ym mharagraff (1)(a) neu (b) os gwneir cais gan naill ai'r apelydd neu'r awdurdod gorfodi am gael gwrandawiad mewn perthynas â'r apêl.

(3) Dyma'r personau y mae ganddynt hawl i gael gwrandawiad mewn gwrandawiad —

(a) yr apelydd;

(b) yr awdurdod gorfodi; ac

(c) unrhyw berson (heblaw'r awdurdod gorfodi) yr oedd yn ofynnol i'r apelydd gyflwyno copi o'r hysbysiad o apêl iddo.

(4) Ni fydd dim ym mharagraff (3) yn atal y person a benodir i gynnal gwrandawiad yr apêl rhag caniatáu i unrhyw berson arall gael ei wrando yn y gwrandawiad; a rhaid peidio â gwrthod caniatâd o'r fath a hynny'n afresymol.

(5) Ar ôl i wrandawiad ddod i ben, rhaid i'r person a benodir i gynnal y gwrandawiad, oni bai ei fod wedi'i benodi o dan adran 114(1)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**) (pwer y Cynulliad Cenedlaethol i ddirprwyo ei swyddogaethau penderfynu apelau neu i atgyfeirio materion sy'n gysylltiedig ag apelau) i benderfynu'r apêl, gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol y mae'n rhaid iddo gynnwys casgliadau'r person penodedig a'i argymhellion (neu resymau dros beidio â gwneud unrhyw argymhellion).

(**1**) 1995 p25.